Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
6 Medi 2018 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Mirain Llwyd Owen, Wynn Roberts, Math Williams, Peter Garlick, Geraint Strello, Ifor Dylan Williams, Dafydd Iwan
Cadeirio: Erddyn Davies
Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Emyr Williams, Gwyneth Thomas

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion Gorffennaf 2018. Cynnig: Mirain Llwyd Owen
Eilio: Peter Garlick

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Clybiau Ieuenctid Gwynedd

Cytunwyd y dylai cynrychiolaeth o dri i bedwar aelod ddod at ei gilydd er mwyn trafod y mater yn fanylach a'r opsiynau posibl efo Cyngor Gwynedd.

4.2 Y Ganolfan, Bontnewydd

Rhoddodd y Cynghorydd Math Wiliams grynodeb o sefyllfa ariannol Y Ganolfan. Rhagwelir y bydd incwm tros wariant tua £2,650 yn brin y flwyddyn nesaf. Mae'r incwm tros wariant eleni £700 yn brin, ond bydd y sefyllfa'n gwaethygu oherwydd colled incwm cymharol sylweddol y Clwb Ieuenctid.

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i godi cost rhentu'r Ganolfan, gan fod y symiau a godir ar hyn o bryd yn gymharol isel.

Gofynnwyd i Bwyllgor y Ganolfan adrodd ar sefyllfa ariannol Y Ganolfan i'r Cyngor Cymuned yng nghyfarfod mis Hydref.

4.3 Problemau Traffig Llanfaglan

Mae angen cytuno ar union ddarpariaeth a lleoliad yr arwyddion y cytunodd Cyngor Gwynedd eu gosod ar Lôn Pant. Awgrymwyd gofyn am fanylion pellach ac yna mynegi barn.

Er y cytunwyd fod rhai modurwyr yn gor-yrru drwy Lanfaglan, y farn gyffredinol oedd fod popeth oedd yn rhesymol bosibl wedi ei wneud a'i drafod parthed y mater yma. Gobeithir y bydd ymweliadau gan y fan Gan Bwyll yn gwella pethau ymhellach.

4.4 Cerrig yn Afon Gwyrfai

Yn dilyn cyfarfod safle,cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallasai'r cerrig effeithio ar lifogydd yn is i lawr yn yr afon, ac fellly byddant yn fodlon clirio'r cerrig.

Fodd bynnag, credir fod yna filoedd o dunelli i'w symud,a byddai'n synhwyrol gweld a fyddai ffemwr y caeau cyfagos â diddordeb o gael y cerrig, gan y byddai hyn yn gwneud gwaredu'r cerrig yn haws.

Gan fod yr ardal yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yna mae'n rhaid gwneud y gwaith cyn 25 Hydref, neu aros tan y flwyddyn nesaf.

Mynegodd y cynghorydd Wynn Roberts fod cyarfod wedi ei gynnal ar 4 Medi gyda Cyngor Gwynedd ac asiantaethau eraill, er mwyn trafod y broblem llifogydd ym Montnewydd. Mynegwyd siom nad oedd cynrychiolaeth o Gyfoeth Naturiol Cymru yn bresennol yn y cyfarfod yma, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyfoeth Naturiol Cymru i ofyn iddynt fynychu'r cyfarfod nesaf sydd i'w gynnal ddechrau Rhagfyr.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Gorffennaf ac Awst 2018

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18 y mis x2
Cyfanswm Net £211.58 y mis x 2

5.2 Costau Postio Clerc £5.04, **Costau Amlen Fawr** £1.99

5.3 Yswiriant 2018/19, Cynllun Tair Blynedd, Zurich Municipal £1436.63

5.4 Snowdonia Fire Protection, cabinet Dogfennau, £28.80

5.5 PWLB – (£8736.43 yw'r balans i'w dalu) - £406.35 allan o'r banc Awst 2018

5.6 Balans yn y Banc 30 Awst 2018 £11,866.33

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim

7. GOHEBIAETH

- Llythyr gan Wasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd

Roedd y Gwasanaeth Cynllunio yn gofyn am awgrymiadau i wella'r gwasanaeth. Awgrymwyd y byddai rhoi'r cyfeirnod cynllunio fel ei fod yn cysylltu'n uniongyrchol â'r we o gymorth. Yn ogystal, byddai cysylltiad haws gyda'r Swyddogion unigol yn cael ei werthfawrogi.

8. MATERION ERAILL

8.1 Casgenni Blodau Bontnewydd

Cafodd 5 casgen flodau eu dwyn o Fontnewydd mewn un noson. Mae'r heddlu'n ymchwilio.

8.2 Carafan Y Foryd

Mae carafan wedi ei pharcio yn Y Foryd ers rhai wythnosau a dim golwg o'i pherchnogion. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Gwynedd i'w symud.

8.3 Gwresogydd i'r Ganolfan

Mae angen prynu gwresogydd ychwanegol i neuadd y Ganolfan erbyn tua canol mis Hydref. Cytunwyd mewn egwyddor i hyn, a gofynnwyd i Bwyllgor y Ganolfan drefnu a gofyn am brisiau.

Mae AER a osododd wresogydd rai misoedd yn ôl wedi dweud y byddai gosod gwresogydd arall tua'r un pris, sef tua £3,000, ond gall fod ychydig yn rhatach oherwydd bod y gwaith cychwynnol wedi ei wneud wrth osod y gwresogydd arall.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

4 Hydref 2018 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod Medi 2018

CYNGOR CYMUNED BONTNEWYDD :
Cofnodion cyfarfod Medi 2018